# Cylchlythyr Fforwm Ieuenctid y Fro

Crëwyd gan aelodau'r Fforwm



**Croeso gan gadeirydd ac is-gadeirydd Fforwm Ieuenctid y Fro. Croeso i'n cylchlythyr cyfnod Ebrill – Gorffennaf 2017. Rydym wedi cael rhai trafodaethau a dadleuon gwych ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys Profiadau Plentyndod Niweidiol a chwricwlwm AG a ddarperir yn lleol. Hoffwn ddiolch i'r aelodau am eu hymrwymiad y tymor hwn yn enwedig gan fod cynifer yn sefyll eu harholiadau TGAU a Lefel A. Y tymor nesaf, byddwn ni'n cynnal etholiadau ar gyfer rhai swyddi newydd, felly hoffem ddymuno pob lwc i bawb ymlaen llaw.**

**Diogelu Dyfodol Cymru –** Un o'r eitemau cyntaf ar yr agenda y tymor hwn oedd gwybodaeth Llywodraeth Cymru (LlC) ar "Adael yr Undeb Ewropeaidd a sefydlu Perthynas Newydd ag Ewrop." Roedd yn gyfle gwych i drafod Brexit a sut y mae'n gwneud i aelodau deimlo. Roeddem ni'n gallu dysgu am y 6 prif fater a nodwyd yng Nghymru a beth allai'r ateb gorau fod. Gwnaethom ddysgu mwy am y Farchnad Sengl, symud pobl a chyllid. Roedd yn gyfarfod hynod ddiddorol ac rydym ni'n gobeithio cymryd rhan mewn gwaith ar y pwnc yn y dyfodol gan y bydd yn effeithio ar ein dyfodol ni.






**Straen Arholiadau –** Yr adeg yma o'r flwyddyn, un o'r prif flaenoriaethau ar gyfer pobl ifanc yw arholiadau . Gan fod rhagor o straen ar bobl ifanc i gyflawni'r graddau uchaf, tynnwyd sylw at straen arholiadau fel thema barhaus drwy gydol y tymor. Drwy gynnal trafodaethau, roedd aelodau'n gallu rhannu enghreifftiau o arferion da y mae ysgolion a phobl ifanc yn eu dilyn i baratoi at straen ac i ymdopi ag ef. Roedd aelodau hefyd yn gallu archwilio gwasanaethau lleol sy'n cynnig cymorth ac arweiniad i bobl ifanc yn ystod y cyfnod hwn a rhannu'r wybodaeth hon â'u cyfoedion.

**Profiad Plentyndod Niweidiol –** Yn dilyn digwyddiad lleol i weithwyr lleol sy'n gweithio â phlant a phobl ifanc, cododd aelodau o'r Cabinet Ieuenctid ymwybyddiaeth o Brofiadau Plentyndod Niweidiol (PPN). Gwnaethom ni ddysgu am PPNau ac ystyried rhai ystadegau a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gwnaethom ddysgu sut y gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod gynyddu'r risgiau o ddatblygu ymddygiadau sy'n niweidiol i iechyd yn y dyfodol, megis dod yn ddioddefwr trais, ysmygu a dod yn yfwr risg uchel. Gwnaethom hefyd drafod sut y gallai atal PPNau mewn cenedlaethau'r dyfodol helpu pobl i fyw bywydau iachach.

**Cwricwlwm AG –** Mewn cyfarfod arall y tymor hwn, nodwyd mater arall ynghylch anghydraddoldeb yn y cwricwlwm AG mewn rhai ysgolion cyfun ar draws y Fro. Cododd aelodau bryderon ynghylch y ffaith nad oedd gan ferched gyfle i gymryd rhan mewn chwaraeon ystrydebol wrywaidd megis pêl-droed a rygbi, ac nad oedd gan fechgyn gyfle bob amser i gymryd rhan mewn pêl-rwyd, ac mewn rhai achosion, ddim yn cael cyfle i ddysgu'r technegau campfa uwch y mae merched yn eu gwneud. Roedd aelodau Fforwm Ieuenctid y Fro yn gallu rhannu eu profiadau o AG, trafod y pwyntiau a godwyd a gwneud awgrymiadau ar sut y ddatrys y mater. Rhoddwyd enghreifftiau o arferion da gan rai ysgolion lle'r oedd bechgyn a merched yn gallu cymryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon ni waeth beth fo'u rhyw. Ar y cyfan, mae Fforwm Ieuenctid y Fro o'r farn bod angen mwy o gysondeb wrth ddarparu AG er mwyn sicrhau cwricwlwm mwy cytbwys a theg.

